# CYFLE CONSESIWN

## Bwyd Poeth ac Oer Rhif 2,
## Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Penarth

## Trwydded am flwyddyn gydag opsiwn o 2 flynedd arall



**GWAHODDIR CYNIGION GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**
Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## 1 Cefndir

Agorodd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston i'r cyhoedd ym 1978 ar ôl cael ei drawsnewid o chwarel galchfaen ac wedi hynny tomen ar gyfer sbwriel y cartref. Mae Cosmeston yn parhau i wella gydag ardaloedd yn cael eu dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a chafodd statws Gwarchodfa Natur Leol yn 2013 a statws y Faner Werdd yn 2018. Heddiw mae'r coetiroedd, y dolydd a'r llynnoedd yn Cosmeston yn denu dros 250,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac maent yn hafan i fywyd gwyllt lleol. Mae'r llwybrau pren a'r rhwydwaith o lwybrau yn gwneud Cosmeston yn hygyrch i bawb a chyda man chwarae newydd a ychwanegwyd yn 2021, mae'n prysur ddod yn gyrchfan chwarae i blant.

Hefyd ym Mharc Cosmeston mae Pentref Canoloesol Cosmeston yn atyniad treftadaeth unigryw ym Mhrydain, lle gall ymwelwyr fynd ar daith o amgylch y pentref canoloesol a ail-grëwyd, a phrofi sut roedd bywyd ym 1350.


Mae Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston rhwng Penarth a Sili, 7.3 milltir o Gaerdydd.

## 2 Trwydded

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer safle bwyd a/neu ddiodydd poeth ac oer o safon uchel o fan gwerthu symudol ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston. Mae'r Cyngor yn cynnig consesiwn yn y lleoliad a nodir yn goch ar y cynllun. Ni chaniateir masnachu dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw leoliad heblaw am yr un a ddangosir ar y cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adleoli'r consesiwn i safle arall.

Bydd y defnydd a ganiateir ar gyfer gwerthu diodydd a bwyd poeth ac oer o gerbyd symudol. Mae gwerthwr hufen iâ ar wahân yn y lleoliad hwn felly nid yw'r consesiwn hwn yn caniatáu gwerthu cynhyrchion hufen iâ na lolis.

Gan fod dau gyfle ar gael ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn chwilio am werthwyr a fydd yn cydweddu â'i gilydd ac yn cyd-fynd â safonau uchel y Parc Gwledig. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses ddyrannu.



## 3 Amseroedd Masnachu

Mewn amgylchiadau arferol, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd masnachu'n digwydd bob dydd drwy gydol cyfnod y drwydded, bydd modd dechrau am 08:00 ond nid hwyrach na 10:00 a gorffen am 22:00 ar yr hwyraf. Fodd bynnag, rhoddir hyblygrwydd i'r Trwyddedai o ran oriau masnachu er mwyn lleihau colledion a achosir gan dywydd gwael pan fo'r ardal yn dawel.

## 4 Telerau Gweithredu

Bydd angen i'r Trwyddedai weithredu'r consesiwn ar y sail ganlynol:-

a) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod o leiaf un oedolyn cymwys yn bresennol yn y consesiwn ac yn ei reoli trwy'r amser.

b) Ystyrir bod y Trwyddedai wedi archwilio'r holl gyfleusterau cyn dechrau'r Drwydded. Mae'r Trwyddedai'n cytuno i gymryd y consesiwn yn ei gyflwr presennol ac i'w roi yn ôl i'r Cyngor mewn cyflwr nad yw'n waeth na'r cyflwr presennol ar ddiwedd cyfnod y Drwydded.

c) Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am gadw lleoliad y consesiwn mewn cyflwr glân a thaclus.

d) Bydd y Trwyddedai'n annog y cyhoedd i ddefnyddio'r consesiwn a bydd yn sicrhau bod agwedd a safonau staff o'r safon uchaf ac yn cael eu cynnal trwy'r amser.

e) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau nad yw defnyddwyr cyfleusterau'r consesiwn yn achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch, nac yn caniatáu niwsans nac aflonyddwch, i unrhyw aelod o'r cyhoedd, i ddeiliaid consesiwn arall/lesddeiliaid nac i staff y Cyngor.

f) Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu i unrhyw sbwriel gael ei adael yn y safle.

g) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y consesiwn yn cael ei weithredu mewn modd cyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ar bob adeg. Bydd graddfa gostau'n cael ei harddangos yn glir yn y cyfleusterau consesiwn bob amser.

h) Mae'r Trwyddedai'n gyfrifol am sicrhau bod ei staff a'i asiantau'n cael eu hysbysu ynghylch sut mae dod i'r safle yn ddiogel. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am weithred sy'n arwain at ddifrod i gerbyd.

i) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y cerbyd symudol/stondin fwyd yn ennill ac yn cynnal Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol o 3 neu uwch. Dylid cyflwyno copi o hyn wrth wneud cais am y tendr.

j) Bydd y cerbyd symudol/stondin fwyd yn gwbl symudol. Gellir ei adael/gadael ar y safle ar risg y trwyddedai ei hun. Nid oes unrhyw drydan, dŵr na draen ar gael.

k) Ni ddylai'r Trwyddedai arddangos unrhyw hysbyseb neu boster ac eithrio'r prisiau a'r sgôr hylendid.

l) Bydd y cerbyd symudol / stondin fwyd yn addas I'w amgylchedd ac yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

## 5 Defnydd

Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais ar fwyd iach a chynnyrch lleol o ffynonellau cynaliadwy.

Bydd y Drwydded arfaethedig yn caniatáu i'r Trwyddedai werthu bwyd poeth, diodydd poeth, bwyd oer a diodydd oer di-alcohol.

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:


a) Ni chaniateir gwerthu unrhyw gynnyrch hufen iâ na lolis.
b) Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
c) Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol yn y Safle.
d) Ni chaniateir defnyddio plastigau untro.

## 6 Cyfnod y Drwydded

Bydd y Drwydded arfaethedig am gyfnod o 1 flwyddyn o leiaf, yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2021. Gellir ymestyn hyn am 2 flynedd arall yn ôl disgresiwn y Cyngor, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2024.

## 7 Mynediad

Bydd mynediad i'r safle ar hyd y llwybr a ddangosir yn frown ar y cynllun yn unig. Bydd y Trwyddedai'n cadw at gyfyngiadau diogelwch gyrru'r Parc.



## 8 Ffi’r Drwydded

Ffi’r Drwydded fydd y swm ar y ffurflen dendro lwyddiannus (h.y. ffi gyfan y Drwydded) ac ni fydd yn cynnwys yr holl ardrethi, trethi a threuliau eraill y gellir eu codi ar y consesiwn. Bydd angen talu ymlaen llaw am Ffi’r Drwydded am y flwyddyn gyntaf. Ni chaiff unrhyw Drwydded Consesiwn ei rhoi ac ni chaiff unrhyw weithredwr ei ganiatáu i ddechrau masnachu nes y caiff Cytundeb y Drwydded ei gwblhau a nes y bydd Ffi'r Drwydded a'r costau wedi'u talu'n llawn.

## 9 Ffioedd a chostau

Bydd y Trwyddedai’n gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bro Morgannwg, sef £93.68 (naw deg tri phwys a chwe deg wyth ceiniog) heb gynnwys TAW, a chostau Cyfreithiol y Cyngor ei hun, sef £187.45 (cant wyth deg saith pwys a phedwar deg pump ceiniog) ar gyfer paratoi’r Drwydded a’i gwrthran.

## 10 Ardrethi a threuliau eraill

Bydd y Trwyddedai’n atebol am yr holl drethi, ardrethi a threuliau eraill sy’n daladwy mewn cysylltiad ag arfer a defnyddio’r Drwydded neu sy’n deillio o hynny.

## 11 Yswiriant

Bydd y Trwyddedai’n indemnio Bro Morgannwg yn erbyn unrhyw a phob hawl, cam gweithredu, gorchymyn, cost neu achos trydydd parti, gan gynnwys ar gyfer pob anaf boed yn angheuol neu beidio, pa beth bynnag sy’n codi a sut bynnag y mae’n codi o ganlyniad i roi’r Drwydded arfaethedig.

Bydd y Trwyddedai’n cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o’r fath bolisïau yswiriant sydd wedi’u trefnu gyda Chwmni Yswiriant ag enw da, fel sy’n ofynnol gan y Pennaeth Cyllid (Is-adran Yswiriant).

**O.N.** Bydd angen dangos dogfennau yswiriant, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cyn rhoi unrhyw drwydded.

## 12 Eiddo’r Cyngor

Pan fo Trwydded yn caniatáu defnyddio unrhyw eiddo sy’n berchen i’r Cyngor, tiriog neu arall, bydd y Trwyddedai yn sicrhau y caiff yr eiddo ei ddefnyddio gyda gofal rhesymol ac y caiff ei ddychwelyd i’r Cyngor mewn cyflwr nad yw’n waeth nag ar ddechrau cyfnod y Drwydded, ac eithrio traul deg, ddisgwyliedig. Caiff unrhyw eiddo a gollir neu a ddifrodir ei adnewyddu neu ei atgyweirio fel sy’n briodol er boddhad Rheolwr Gweithredol priodol y Cyngor.

## 13 Niwsans / Aflonyddwch

Ni fydd y Trwyddedai yn achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch wrth arfer telerau’r Drwydded ac ni fydd, dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu i sbwriel gael ei adael ar dir sy’n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Trwyddedai’n darparu (yn ardal safle’r consesiwn) cynhwysyddion priodol ar gyfer gwaredu sbwriel a bydd yn sicrhau y caiff yr holl sbwriel hwnnw ei symud a’i waredu’n briodol mor aml ag y mae angen ond nid llai nag unwaith yr wythnos.

## 14 Diddymu

Ceidw Cyngor Bro Morgannwg fel Trwyddedwr yr hawl i ddiddymu'r Drwydded ar unrhyw adeg wedi rhoi 24 awr o rybudd ysgrifenedig, os bydd y Trwyddedai yn torri unrhyw un o'r cyfamodau sydd yn y Drwydded.

## 15 Nodweddion

Bydd y Drwydded yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn gallu cael ei haseinio, ei throsglwyddo nac ei gwaredu mewn ffordd arall heblaw am drwy ei hildio i'r Trwyddedwr.

## 16 Newidiadau

Ni chaniateir unrhyw newidiadau, addasiadau, diwygiadau nac ychwanegiadau i hawliau neu freintiau a roddir yn y Drwydded.

## 17 Rhwymedigaethau Statudol

Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â'r holl ofynion, rheoliadau, is-ddeddfau a rheolau cynllunio statudol a thrwyddedu, a gofynion neu gydsyniadau cyfreithiol eraill sy'n berthnasol neu sy'n codi o ganlyniad i roi'r Drwydded.

## 18 Diogelwch y Cyhoedd

Rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio â'r holl ganllawiau a rheoliadau diogelwch cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 neu unrhyw feirws arall.

Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Trwyddedai i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio ar unwaith. Os digwydd hyn, ad-delir y Trwyddedai ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r Trwyddedwr yn gwahardd masnachu.

## 19 Terfynu

Gall y naill ochr derfynu'r Drwydded wrth roi rhybudd o un mis yn ysgrifenedig. Os yw'r Trwyddedai'n terfynu'r cytundeb, ni wneir unrhyw ad-daliad o ffi'r Drwydded. Pe bai'r Cyngor yn terfynu'r cytundeb, yna ar yr amod bod y Trwyddedai/Trwyddedeion wedi bodloni holl delerau'r drwydded, gellir gwneud ad-daliad pro-rata am Ffi'r Drwydded, ac eithrio os caiff ei therfynu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

## 20 Annilysu

Ceidw'r Cyngor yr hawl, fel y barno, i beidio ag ystyried, neu i ystyried yn annilys, unrhyw dendrau gan unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni nad yw wedi cyflawni ei ymrwymiadau statudol neu delerau unrhyw drwydded, prydles neu gontract neu gytundeb arall yn y gorffennol gyda'r Cyngor.

Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid nodi nad ystyrir unrhyw dendr gan Drwyddedai consesiwn y Cyngor yn y gorffennol, y mae ganddo Ffioedd Trwydded, Costau neu Ardrethi Annomestig heb eu talu ar y dyddiad cau ar gyfer tendrau.

## 21 Dim gwarant

Nid yw'r Cyngor yn gwneud nac yn rhoi unrhyw warant yn ymwneud â'r safle neu ei addasrwydd at ddefnydd arfaethedig y Trwyddedai.

## 22 Telerau Ychwanegol

Bydd y Drwydded yn cynnwys telerau ac amodau y mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r consesiwn.

## 23 Deunyddiau'r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion

Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno cynnig manwl a fydd yn cynnwys:

A. **Ffi'r Cynnig;**
B. **Bwydlen Enghreifftiol;**
C. **Sgôr Hylendid Bwyd Genedlaethol**
D. **Os ydych yn gwneud cais am fwy nag un safle consesiwn, rhaid nodi'r safle a ffafriwch gan mai dim ond un safle a gaiff ei ddyrannu i gynigydd.**

Y dyddiad cau di-droi'n ôl ar gyfer cyflwyno cynigion tendr yw **Hanner Dydd Ddydd Mercher 08 Mai 2024**.

Rhaid cyflwyno'r cynnig yn yr amlen swyddogol gyda'r Label Tendr swyddogol wedi ei gludo ar yr ochr allan â'r teitl, "Tendr 2 Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston".

Rhaid selio'r amlen yn dynn a RHAID IDDI BEIDIO Â dangos unrhyw farc a allai ddatgelu pwy yw'r anfonwr/ymgeisydd. Er mwyn osgoi amheuaeth **ni dderbynnir unrhyw geisiadau a gyflwynir drwy e-bost. Os ydych yn danfon â llaw, edrychwch ar wefan y Cyngor i weld oriau agor y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod at y:

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri CF63 4RU.**

## 24 Dethol y Cynigydd a Ffefrir a'r Meini Prawf Sgorio a Bwysolir

Caiff y Cynigydd a Ffefrir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

a. **Y cynnig rhentu arfaethedig (pwysoli 40%)** ar sail y "Cynnig Rhentu" a gyflwynir gan y cynigiwr; a'r

b. **Datganiad o fwriad (pwysoli 60%)** ar sail safon y cynnig, nodwedd werthu unigryw'r busnes arfaethedig, pa mor dda mae'r busnes yn cyd-fynd â safonau a gwerthoedd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston a sut y bydd y busnes arfaethedig yn cyfrannu at bolisi Prosiect Sero y Cyngor.